



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Meini Prawf ar gyfer Lleoliad mewn Darpariaeth Arbenigol 2019

Gorffennaf 2019

Cynnwys

1. RHAGARWEINIAD	1
Y Cyd-destun Cenedlaethol	Error! Bookmark not defined.
Y Cyd-destun Lleol	Error! Bookmark not defined.
2. MEINI PRAWF Y BROSES	2
3. CEISIADAU EITHRIADOL AM LEOLIADAU	3
4. MEINI PRAWF AR GYFER LLEOLIAD	3
5. DARPARIAETH ARBENIGOL	4
6. PANEL LLEOLIADAU ARBENIGOL	4
7. MEINI PRAWF MYNEDIAD/YMADAEL AR GYFER DARPARIAETH ARBENIGOL	6
A. CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CAD) ANHWYLDER AR Y SBECTRWM AWTISTIG (ASA)	66
B. CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CAD) ANAWSTERAU DYSGU CYMHLETH	8
C. LLEOLIAD ARBENIGOL AR GYFER NAM AR Y CLYW	10
D. CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CAD) UNED CYFEIRIO DISGYBLION (UCD) AR GYFER ANOGAETH/ ANAWSTERAU CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL AC YMDDYGIADOL	11
E. YSGOL GREENFIELD	14
8. ATGYFEIRIADAU	16
9. ATODIADAU	17
Ffurflen Data Disgyblion/Atgyfeiriad Lleoli	17
Caniatâd y Rhieni/Gofalwyr am Atgyfeiriad Lleoli	18
Dealltwriaeth rhwng Staff y Brif Ffrwd a Staff y Grŵp Anogaeth	Error! Bookmark not defined.
Gwasanaeth Cymorth Ysgolion: Tîm Cymorth Ymddygiad a Gwasanaethau Allgymorth	20
Llwybr y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA)	21

1. RHAGARWEINIAD

Mae pob athro yn athro ar blant ag anghenion addysgol arbennig. Felly, mae dysgu plant fel hyn yn gyfrifoldeb i'r ysgol gyfan.

(Cod Ymarfer AAA Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002, 5.2)

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr, ysgolion a phartneriaid eraill ynghylch pryd y gallai fod yn briodol ystyried lleoliad mewn darpariaeth arbenigol. Mae'n disgrifio disgwyliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) mewn cysylltiad â'r ymateb graddedig y mae'n rhaid ei fabwysiadu cyn ymgymryd â'r broses hon. Mae'r angen i ysgolion ymateb mewn modd graddedig i Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'i amlinellu'n glir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru 2002.

I'r mwyafrif o blant ag AAA, bydd cefnogaeth briodol drwy gyfrwng y rhaglenni Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar (GY/GBC) neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (GY+/GBC+) yn eu galluogi i wneud cynnydd disgwylidiedig, oherwydd trwy ymyrryd yn gynnar mae'n bosibl atal AAA yn y tymor hirach. Mae'n bosibl y bydd y gefnogaeth ychwanegol a'r ddarpariaeth sydd ar gael gan yr ysgol neu'r lleoliad addysgol yn ddigonol fel bod y plentyn neu'r person ifanc yn datblygu o fod ar y cynllun GY+/GBC+ i fod ar y cynllun GY/GBC, ac mewn rhai achosion, fe all arwain at derfynu darpariaeth addysgol arbennig yn gyfan gwbl. Bydd gan leiafrif bychan iawn o blant AAA gymhlethdod neu ddifrifoldeb a fydd yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol (ALI) yn penderfynu ac yn trefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig y mae eu hanawsterau dysgu yn gofyn amdani.

Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Ragflaenorol: mae angen i bob polisi ac arfer roi ystyriaeth briodol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagflaenorol. Mae adran 20 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amlygu'r angen i'r Cyngor a'r ysgolion ragweld anghenion y defnyddwyr gwasanaeth anabl ac i fynd ati'n rhesymol i gael gwared ar yr hyn sydd yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn un ragflaenorol o ran bod angen ystyried, a gweithredu ynghylch, rhwystrau sy'n llesteirio pobl ag anabledau rhag defnyddio gwasanaethau a chyfrannu mewn gweithgareddau, a hynny cyn iddynt gael mynediad atynt.

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Cod Ymarfer 2002 yn cynnwys canllawiau ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau gyda'r bwriad o alluogi disgyblion ag AAA i gyrraedd eu llawn botensial, i gael eu cynnwys yn llawn yng nghymunedau eu hysgolion ac i groesi'r bont yn llwyddiannus i fod yn oedolion. Bydd lleoliad prif ffrwd y mwyafrif helaeth o blant yn bodloni eu holl anghenion AAA. Fodd bynnag, bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai plant gan wasanaethau AAA neu asiantaethau eraill y tu allan i'r ysgol er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu.

Mae CBSMT yn sicrhau bod llawer iawn o adnoddau, darpariaethau a lleoliadau arbenigol ar gael heb fod angen Datganiad AAA.

Mae angen felly i feini prawf y lleoliadau ystyried cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys difrifoldeb a chymhlethdod anghenion y plentyn (y meini prawf trothwy), y gweithredu perthnasol a phwrpasol a fu er mwyn rhoi sylw i'r anghenion (meini prawf y broses), yr adnoddau sydd eisoes yn cael eu defnyddio i gefnogi'r plentyn, a'r cynnydd a wnaed.

Y Cyd-destun Lleol

Mae gan yr ALI draddodiad hirsefydlog o ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion ag AAA difrifol a pharhaol, heb fod angen gwneud Datganiad AAA. Fodd bynnag, caiff Asesiadau Statudol eu gwneud bob amser pan fo anghenion plentyn yn golygu bod angen lleoliad ysgol arbennig arno.

Mae'r ALI wedi ymrwymo i sicrhau bod modd i ddisgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a difrifol gael cymorth priodol, a hynny mewn modd prydlon. Mae gan yr ALI ganllawiau ar feini prawf ychwanegol ar waith, i hysbysu ysgolion ynghylch pryd y gallai fod yn briodol darparu cefnogaeth ychwanegol drwy gyfrwng y rhaglenni GY+/GBC+ (Canllawiau'r Meini Prawf AAA ar gyfer Cymorth Gwell 2018).

Mae gan yr ALI adnoddau di-ri i gefnogi plant ag AAA difrifol a pharhaol heb fod angen Datganiad AAA. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynediad i gyngor ac arweiniad arbenigol gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynhwysiant ac ADY;
- mynediad i becynnau cymorth gan y Gwasanaeth Cynhwysiant ac ADY; a
- mynediad i leoliad mewn Canolfan Adnoddau Dysgu neu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Gall pecynnau cymorth o fewn y Tîm ADY gynnwys cymorth dysgu ar gyfer plant ag: Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth; anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol; anawsterau iaith a lleferydd; nam ar y clyw; nam ar y golwg; ac anawsterau corfforol/meddygol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau penodol ar gyrchu lleoliadau mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a Chanolfannau Adnoddau Dysgu. Mae modd sicrhau lleoliadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu heb Ddatganiad AAA hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod modd gweithio mewn ffordd fwy effeithlon, effeithiol a di-dor er mwyn bodloni anghenion y plentyn. O ran y plant hynny nad ydynt yn dal i wneud y cynnydd disgwylidig, hyd yn oed gyda chefnogaeth ychwanegol mewn lleoliadau prif ffrwd drwy gyfrwng y rhaglenni GY+/GBC+, neu mewn Canolfan Adnoddau Dysgu bychan neu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, mae gan yr ALI ddyletswydd statudol i benderfynu pa un a oes angen ystyried lleoliad mwy arbenigol a/neu wneud asesiad statudol o AAA y plentyn.

2. MEINI PRAWF Y BROSES

Mae'n rhaid i ysgol neu leoliad blynnyddoedd cynnar ddangos y bu'r hyn y buont yn ei wneud yn bwrpasol, yn berthnasol ac wedi'i gynnal ar lefel GY+/GBC+. Fel arfer, bydd plant sy'n gymwys am asesiadau statudol wedi cael cefnogaeth gan y rhaglenni GY+/GBC+ ac wedi cael adnoddau ychwanegol ers cyfnod sylweddol o amser. Caiff y dystiolaeth ganlynol ei hystyried wrth bwysu a mesur cais am leoliad:

- ymwneud y rhieni/gofalwyr a'r plentyn
- ymyrraeth berthnasol a phwrpasol wedi'i hariannu gan yr ysgol drwy'r rhaglenni GY/GBC a GY+/GBC+
- gweithredu o leiaf dau Gynllun Addysg Unigol a Chynllun Ymddygiad Unigol yn ystod y rhaglenni GY/GBC a GY+/GBC+
- monitro cynnydd y plentyn dros gyfnod o amser (sy'n ymdrin ag o leiaf dau Gynllun Addysg Unigol/Cynllun Ymddygiad Unigol **adolygedig** yn ystod y rhaglenni GY/GBC a GY+/GBC+)
- ymyriadau GY+/GBC+ ychwanegol wedi'u rhoi ar waith dros gyfnod o ddwy flynedd o leiaf (dylai hyn gynnwys adnoddau ychwanegol o Gyllid Ychwanegol, mewnbyn gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaeth Cymorth Ysgolion (Y Tîm Cymorth Ymddygiad ac Allgymorth) a'r Tîm ADY
- ymglymiad gwasanaeth arbenigol, gan gynnwys tystiolaeth o unrhyw newid mewn strategaethau a rhaglenni o ganlyniad i fewnbwn a monitro arbenigol
- nodi angen dros gyfnod o amser a chofnodi gwybodaeth asesu fanwl ar gyfnodau rheolaidd
- arwydd glir o'r strategaethau sydd ar waith a'u heffaith ar addysg ac/neu ymddygiad y plentyn.

Mae'n rhaid i Baneli Lleoliadau Arbenigol yr ALI fod yn ffyddiog bod anawsterau'r plentyn yn ddifrifol, yn gymhleth ac yn hirsefydlog ac nad ydynt wedi'u datrys er trefnu amrywiaeth o ymyriadau gofalus. Byddir yn ystyried yr adnoddau sydd fel rheol ar gael i ysgol neu leoliad cyn-ysgol, a defnydd yr ysgol ohonynt gyda'r plentyn penodol sy'n ymgeisio am leoliad.

3. CEISIADAU EITHRIADOL AM LEOLIADAU

Ni chaiff ceisiadau am leoliadau mo'u hystyried oni bai bod tystiolaeth glir i awgrymu bod ymateb graddoledig i AAA wedi'i fabwysiadu. Yn amlwg, bydd rhai achosion eithriadol lle na fydd oedi yn llesol i'r plentyn, ac fe ystyrir y cyfryw geisiadau yn unol â hynny. Mae modd gwneud rhai ceisiadau ar fyrder heb fod angen bodloni'r meini prawf ar gyfer yr ystod gyflawn o ymyriadau fyddai'u hangen fel arfer ar lefel GY/GBC neu GY+/GBC+. Fe allai'r achosion hyn o bosibl gynnwys plant lle mae tystiolaeth amlwg o anghenion difrifol, cymhleth a hirdymor. Mae'n bosibl yr ystyrir gwneud trefniadau eithriadol a mynd ati i weithredu'n brydlon yn achos:

- plant sydd ag anghenion sylweddol, hirsefydlog ac sydd angen sylw brys oherwydd dirywiad sydyn neu ddatblygu cyflwr meddygol neu ddamwain;
- plant ifanc iawn sydd ag anghenion dwys, lluosog a chymhleth;
- plant o du allan y Sir a/neu blant nad oeddem yn gwybod amdanynt o'r blaen.

4. MEINI PRAWF AR GYFER LLEOLIAD

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi disgrifiad clir a phenodol o'r meini prawf mynediad y mae angen eu bodloni cyn bod modd cytuno ar leoliad. Mae canllawiau'r meini prawf yn seiliedig ar bedwar dimensiwn angen. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Gwybyddiaeth a Dysgu
2. Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
3. Anawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio
4. Anawsterau Synhwyrdd a Chorfforol

Mae lleoliad arbenigol yn briodol i blant a phobl ifanc sydd ag AAA hirdymor yn deillio o anabledd sylweddol mewn un neu fwy o'r pedwar dimensiwn. Dylid sicrhau cyfranogiad gan asiantaethau amrywiol a phriodol ynghyd â thystiolaeth o gynllunio, gweithredu ac adolygu systematig yn yr ysgol/ lleoliad ar lefel GY/GBC a GY+/GBC+, cyn gwneud cais am leoliad arbenigol, heblaw bod yr achos yn teilyngu trefniadau eithriadol.

Mae meini prawf lleoliad yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n allweddol i gwrdd ag anghenion addysgol arbennig y plentyn. Pa mor ddwys bynnag yw anawsterau plentyn, cynnydd annigonol ddylai fod y prif faen prawf o ran penderfynu pa un a ddylid gwneud rhywbeth yn *ychwanegol* neu yn *wahanol*. Fodd bynnag, does dim modd rhagdybio y bydd pob disgybl yn gwneud cynnydd ar yr un gyfradd ac mae angen penderfynu ym mhob achos yr hyn y byddai'n rhesymol disgwyl i blentyn neu berson ifanc ei gyflawni. Caiff cynnydd "digonol" ei ddiffinio fel cynnydd sydd:

- yn cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn a'i gyfoedion;
- yn rhwystro'r bwlch cyrhaeddiad rhag ehangu;
- yn debyg i gynnydd cyfoedion sy'n dechrau o'r un llinell sylfaen o ran cyrhaeddiad, ond yn llai na mwyafrif cyfoedion y plentyn;
- yn cyfateb i, neu'n well na chyfradd cynnydd blaenorol y plentyn;
- yn sicrhau bod y cwricwlwm cyfan ar gael;
- yn dangos gwelliant mewn hunangymorth neu sgiliau cymdeithasol neu bersonol; ac
- yn dangos gwelliant yn ymddygiad y plentyn.

Seilir y penderfyniadau ar y pedwar categori angen bras; er hynny, mae'r ALI yn cydnabod bod AAA yn cwmpasu sbectrwm eang, ac y ceir cydberthynas agos rhwng y gwahanol elfennau yn aml. Er bod meini prawf trothwy wedi'u gosod ar gyfer pob categori angen, bydd modd i'r Panel gyfeirio at fwy nag un o'r categorïau hyn. Ystyrir yr effaith grynodol ym mhob un o'r prif anghenion sy'n amlygu'u hunain.

5. DARPARIAETH ARBENIGOL

Gwneir ceisiadau am leoliad arbenigol mewn Canolfan Adnoddau Dysgu/UCD i'r Paneli Lleoli Arbenigol trwy'r Swyddog Datganiadau, ADY. Pennir lleoliad mewn Ysgolion Arbennig trwy Asesiad Statudol neu Adolygiad Blynyddol o'r Datganiad. Rhaid cynnal Asesiad Statudol o AAA cyn ystyried lleoliad mewn Ysgol Arbennig.

Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir ar gyfer atgyfeiriad i leoliad gynnwys yr holl ddata hanfodol y gofynnir amdano megis:

- anghenion ac anawsterau'r plentyn, ac unrhyw ddiagnosis os yn berthnasol;
- lefel cyrhaeddiad a gweithrediad y plentyn;
- trosolwg manwl o'r cynnydd a wnaed dros gyfnod o 2 flynedd, ynghyd â data asesu ategol a Chynlluniau Addysg Unigol/Cynlluniau Ymddygiad Unigol. Yn achos plant ifanc iawn, rhaid cyflwyno gwybodaeth sy'n amlinellu'n glir eu hanghenion addysgol arbennig gan yr ystod o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u hachos;
- cronoleg fanwl o gefnogaeth, strategaethau ac ymyriadau'r ysgol; a
- thystiolaeth i ddangos cysylltiad ag asiantaethau allanol a bod camau wedi'u cymryd ar sail cyngor.

Gweler Atodiadau 1 a 2.

6. PANEL LLEOLIADAU ARBENIGOL

Ar ôl derbyn atgyfeiriad ar gyfer darpariaeth arbenigol ynghyd â'r holl gyngor i gefnogi cais am leoliad arbenigol, ystyrir tystiolaeth yn y Panel Lleoli Arbenigol.

Mae Panel Clirio ADY/Panel Lleoli Arbenigol yn cynnwys:

- Uwch Reolwyr o'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant, gan gynnwys y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cynhwysiant ac ADY (sy'n ymgorffori'r cynrychiolwyr cymorth ymddygiad);
- Cynrychiolydd y Pennaeth neu Gydgyssylltydd ADY (lle bo'n bosibl);
- Cynrychiolydd iechyd (lle bo'n briodol);
- Gwasanaethau Plant.

Mae'r Panel Clirio ADY yn cwrdd yn wythnosol. Mae Paneli Lleoli Arbenigol yn cwrdd bob tymor. Hysbysir ysgolion o ddyddiadau'r Paneli ar gyfer y flwyddyn academiaidd ym mis Medi bob blwyddyn. Mae'n ofynnol cyflwyno atgyfeiriadau erbyn y dyddiad cau a bennir. Ni ellir ystyried cyflwyniadau hwyr. Bydd trafodaethau'r Panel yn gyfrinachol a gofynnir i aelodau'r Panel beidio â thrafod ceisiadau unigol y tu hwnt i gyd-destun y Panel. Bydd y Panel yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer pob achos unigol ac yn dod i benderfyniad ar y cyd. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir i'r Panel gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer lleoliadau.

Caiff penderfyniad y Panel ei gofnodi gan y Swyddog Datganiadau ADY ac anfonir cadarnhad ysgrifenedig o benderfyniad y Panel at yr ysgol neu'r lleoliad cyn-ysgol er mwyn iddynt drafod y mater gyda'r rhieni/gofalwyr. Bydd y Panel yn ystyried lefel anawsterau dysgu'r plentyn a'r ddarpariaeth addysgol arbennig fydd ei hangen arno.

Os yw'r asesiad a'r dystiolaeth yn cadarnhau bod y ddarpariaeth a wneir yn briodol ond bod y plentyn ddim yn gwneud cynnydd digonol, yna bydd yr ALL yn ystyried pa ddarpariaeth bellach sydd ei hangen ac a oes modd darparu hyn gydag adnoddau'r ysgol neu a oes modd diwallu anghenion y plentyn gyda'r cyngor, y gefnogaeth a'r offer sydd ar gael drwy'r cynllun GY+/GBC+.

Bydd canlyniad yr ALL yn dibynnu ar union amgylchiadau pob achos yng nghyd-destun y trefniadau lleol ar gyfer adnoddau a darpariaethau.

Er mwyn ystyried llais y disgybl, dylid ceisio barn disgyblion lle bynnag y bo modd. Os yw disgyblion neu rieni/gofalwyr yn dweud yr hoffent i'r addysg fod mewn ysgol brif ffrwd, mae'r rhaid i'r ALL gydymffurfio â'r dymuniad hwnnw heblaw mewn amgylchiadau lle na fyddai er budd gorau'r disgybl neu lle byddai'n anghydnaws â darparu addysg effeithlon i blant eraill a addysgir gyda'r plentyn. Os yw rhieni yn dweud yr hoffent i'w plentyn dderbyn ei addysg mewn ysgol benodol a gynhelir, mae'n rhaid i'r ALL gydymffurfio oni bai bod yr ysgol yn anaddas o ran oedran, gallu neu fedrau'r plentyn, neu ei anghenion arbennig, neu ei bod yn anghydnaws â'r defnydd effeithiol o adnoddau neu'r ymdrech i ddarparu addysg effeithlon i blant eraill a addysgir gyda'r plentyn.

Caiff lleoliadau arbenigol eu hadolygu ar sail flynyddol ac ni ddylid o reidrwydd meddwl y bydd hynny'n berthnasol ar gyfer gweddill bywyd ysgol y plentyn. Mewn nifer o achosion, bydd ymyrraeth a wneir trwy ddefnyddio'r adnoddau a'r rhaglenni a ddarperir mewn lleoliad arbenigol yn llwyddo i alluogi plentyn i gyrraedd lefel lle gall fanteisio ar y cwricwlwm a phrofiadau dysgu gan ddefnyddio adnoddau a threfniadau arferol yr ysgol. Ym mhob adolygiad, caiff anghenion a chynnydd y plentyn eu hadolygu yn erbyn y targedau a osodwyd yn ei Gynllun Addysg Unigol/Cynllun Ymddygiad Unigol neu ran 3 o'r Datganiad, a chan gyfeirio at feini prawf ymadael y lleoliad perthnasol.

7. MEINI PRAWF MYNEDIAD/YMADAEL AR GYFER DARPARIAETH ARBENIGOL

A. CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CAD) - ANHWYLDER AR Y SBECTRWM AWTISTIG (ASA)

- ✓ Cyfnod Sylfaen: CAD Caedraw / CAD Edwardsville
- ✓ CA2: CAD Caedraw / CAD Dowlais / CAD Edwardsville
- ✓ CA3/4: CAD Afon Taf

Cam Un Tystiolaeth o asesiad, darpariaeth ac effaith yn yr ysgol yn sgil Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar / Gweithredu gan yr Ysgol	☐ Mae diagnosis ffurfiol o ASA wedi'i roi neu mae diagnosis fel prif angen yn yr arfaeth. ☐ Mae tystiolaeth o ASA difrifol a chymhleth sy'n rhwystro datblygiad perthnasodd cymdeithasol yn fawr iawn, er gwaethaf cyfleoedd dysgu perthnasol a rhaglenni sgiliau cymdeithasol/llythrennedd emosiynol unigol. Gellir dangos yr effaith trwy ddau adolygiad CAU. ☐ Mae'r disgybl yn arddangos ymddygiadau annodweddiadol, e.e. ymddygiad obsesiynol, heriol a/neu encilgar. ☐ Mae'r disgybl yn profi sensitifrwydd synhwyrdd a allai achosi pryder neu drallod emosiynol. ☐ Mae asesiadau athrawon perthnasol yr ysgol sy'n llywio'r CAU/CYU ar waith, ac wedi cael eu monitro. ☐ Mae proffil un-dudalen wedi'i ddatblygu i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o anghenion y disgybl. ☐ Mae tystiolaeth o ddarpariaeth ac effaith yr ysgol ar Weithredu Blynnyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol, fel y'u mesurir gan amgyffrediad yr ysgol, y disgybl a'r teulu o'r hyn sy'n gweithio/yr hyn y gellid ei wella. ☐ Cyfeiriwyd at y Gwasanaethau ADY/ Seicolegydd Addysg perthnasol.
Cam Dau Tystiolaeth o ganllawiau, cyngor ac asesiad allanol yn sgil Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar + / Gweithredu gan yr Ysgol +	☐ Ar wahân i lefel gweithrediad gwybyddol y disgybl, mae yna dystiolaeth feintiol ac ansoddol yn dangos bod ASA wedi effeithio ar gynnydd ar draws y cwricwlwm gan gynnwys ymarferoldeb dysgu, cyfathrebu, cymdeithasoli, annibyniaeth. ☐ Mae sgoriau ABAS ar yr 2il ganradd neu lai (sgoriau safonol o 70 neu is/sgôr raddedig o 3 neu lai) sy'n dynodi anawsterau sylweddol o ran gweithredu addasol, yn enwedig o ran gweithredu cymdeithasol - mae'n werth nodi bod gan bob sgôr ystod. Gan fod profion ond yn rhoi ciplun ar weithrediad y plentyn, ni ellir ystyried sgoriau'r profion gweithredu ar eu pennau'u hunain fel meini prawf ar gyfer lleoli. Bydd proffiliau unigol yn cael eu hystyried. ☐ Mae tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol eraill ar gael (megis Pediatregydd, Seiciatrydd, Therapydd Iaith a Lleferydd, Therapydd Galwedigaethol) mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol/synhwyrdd a chyd-afiachusrwydd megis ADHD, Syndrom Tourette.
Tystiolaeth o ddarpariaeth yn yr ysgol, a'i heffaith, yn seiliedig ar gyngor allanol	☐ Tystiolaeth fod yr ysgol wedi ymgynghori â Gwasanaethau ADY/ Seicoleg Addysg a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol perthnasol ac wedi gweithredu ymyriadau mwy penodol a ffocysedig o ganlyniad i'w cyfraniad. ☐ Mae angen i ddarpariaeth yr ysgol ddangos tystiolaeth fod argymhellion yn cael eu dilyn ynghyd â'u heffaith trwy gynnal dau adolygiad CAU (bob tymor) o'r GBC+/GY+ a thrwy asesiadau athrawon.

	☐ Ymgwymerwyd ag unrhyw hyfforddiant argymelledig a gweithredwyd strategaethau gan staff perthnasol am o leiaf dau dymor.
Derbyn	
Cynigir lleoedd trwy Banel Derbyn yr Awdurdod Lleol, a fydd yn ymgorffori barn y plentyn/person ifanc a'r cyngor a ddarperir gan rieni/gofalwyr, yr ysgol, gweithwyr meddygol proffesiynol, y Gwasanaethau Seicoleg Addysg a Phlant (lle bo hynny'n berthnasol). Ymhob achos, mae angen caniatâd rhieni/gofalwyr i gyrchu darpariaeth arbenigol a dylid ystyried llais y disgybl. Mae achosion yn cael eu hystyried yn unigol a rhoir sylw i'w hamgylchiadau penodol. Ym mhob achos, mae angen caniatâd y rhieni/gofalwyr i asesu darpariaeth arbenigol, a dylid ystyried llais y disgyblion. Mae angen llenwi Ffurflen Dderbyn yr Ysgol ar gyfer pob disgybl sy'n cael lleoliad arbenigol mewn ysgol brif ffrwd.	
Cyfrifoldeb yr ysgol bresennol a'r ysgol sy'n derbyn yw sicrhau bod ymweliadau'n cael eu trefnu i'r ddarpariaeth newydd a bod cofnodion disgyblion yn cael eu trosglwyddo mewn pryd.	
Monitro ac Adolygu	
Bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff yr ysgol gynnwys y plentyn/y person ifanc, y rhieni a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol i adolygu addasrwydd y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig a wnaed ar gyfer y plentyn/y person ifanc, gan gynnwys y lleoliad ysgol, o leiaf unwaith bob blwyddyn academiaidd. Mae'n bwysig sicrhau bod rhieni'n ymwybodol pan fydd disgyblion yn cyrraedd diwedd cyfnod allweddol, nad oes hawl awtomatig i leoliad arbenigol ar gyfer y cam allweddol nesaf.	
Deilliant	Meini Prawf Ymadael
Ystyried darpariaeth amgen	☐ Mae'r angen a amlygwyd yn gofyn am strategaethau/amgylcheddau y gellid eu diwallu'n well mewn darpariaeth arall.
Bodlonwyd yr holl feini prawf: ystyried darpariaeth amgen	☐ Mae'r disgybl yn ymdopi ag integreiddio a rhyngweithio yn y brif ffrwd am 50% neu fwy o amserlen yr ysgol heb gefnogaeth unigol. ☐ Gall y disgybl ymdopi'n gymdeithasol ac yn emosiynol yn ystod cyfnodau strwythuredig a distrwythur. ☐ Mae'r disgybl wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'i lefelau cyrhaeddiad academiaidd sydd bellach yn cyfateb i rai o'i gyfoedion prif ffrwd, fel y gwelir yn nata asesu'r ysgol a'r profion safonedig. ☐ Mae'r data asesu arbenigol yn dangos nad yw lefel gweithredu'r disgybl yn amgylchedd yr ysgol bellach o fewn ystod hynod isel yr ABAS (erbyn hyn, mae'r disgybl o fewn yr ystod gyfartalog, h.y. sgôr safonol o 80-120).
Pan fydd disgybl yn cwrdd â meini prawf ymadael ar gyfer dychwelyd i'r brif ffrwd, bydd angen i rieni wneud cais i'w hysgol ddewisol. Os oedd y disgybl yn byw y tu allan i'r dalgylch ac yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol, mae angen hysbysu'i rieni na fydd bellach yn gymwys.	

B. CANOLFAN ADNODDAU DYSGU (CAD) - ANAWSTERAU DYSGU CYMHLETH

✓ Y Cyfnod Sylfaen: CAD Coed y Dderwen / CAD Goetre

✓ CA2: CAD Goetre / CAD Twynrodyn / CAD Ynysowen

Tystiolaeth o asesiad, darpariaeth ac effaith yn yr ysgol yn sgil Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar / Gweithredu gan yr Ysgol	Mae angen tystiolaeth ar gyfer pob un o'r canlynol: ☐ Bod anawsterau dysgu cymhleth ac anghenion ychwanegol yn effeithio ar gynnydd y disgybl ar draws y cwricwlwm ac ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. ☐ Bod y disgybl, er gwaethaf cyfleoedd dysgu gwahaniaethol a Chynlluniau Unigol perthnasol ar gyfer Addysg ac Ymddygiad, yn dal i ddangos anawsterau, ac nid yw wedi gwneud fawr ddim cynnydd, os o gwbl, dros gyfnod o ddau dymor o leiaf. ☐ Bod Proffil Un-dudalen wedi'i ddatblygu i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o anghenion y disgybl. ☐ Y lefelau cynnydd yn ôl Profion Cenedlaethol ac Asesiadau'r Ysgol. ☐ Bod cais wedi'i gyfeirio at Wasanaethau ADY/Seicoleg Addysg perthnasol am gyngor ac asesiad.
Tystiolaeth o ganllawiau, cyngor ac asesiad allanol yn sgil Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar + / Gweithredu gan yr Ysgol +	☐ Mae tystiolaeth gan Wasanaethau ADY/ Seicoleg Addysg neu Weithwyr Iechyd Proffesiynol ac Asesiadau'r Ysgol yn dangos lefel sylweddol o anhawster dysgu cymhleth sy'n parhau dros amser er gwaethaf ymyriadau perthnasol o fewn yr ysgol. ☐ Nodwyd bod y disgybl yn profi oedi datblygiadol cyffredinol neu anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, sy'n cael effaith negyddol ar ei fynediad i'r cwricwlwm ac ar gaffael, cadw a gweithredu'r sgiliau a addysgir. ☐ Tystiolaeth o anghenion ychwanegol eraill megis lleferydd/iaith, ASA, ACEY, anghenion corfforol/meddygol/synhwyraidd. ☐ Mae asesu gallu gwybyddol neu weithredu addasol ar, neu'n is na'r ganradd 1af, neu gyda sgoriau safonol o 67 neu lai ac mae cynnydd ar draws y cwricwlwm yn cael ei oedi yn yr un modd. Yn y Cyfnod Sylfaen, gellir ystyried disgyblion am leoliad os oes yw eu hoediad oddeutu 50%: Dosbarth Derbyn - Aur/Deilliant 1, P5/6 B1 – Deilliant 1, P6 B2 – Deilliant 2, P7 ☐ Yn CA2, gellir ystyried disgyblion am leoliad os yw'r asesiad o'u gallu gwybyddol neu weithredu addasol ar, neu'n is na'r ganradd 1af, neu gyda sgoriau safonol o 67 neu lai a bod cynnydd ar draws y cwricwlwm yn cael ei oedi yn yr un modd.
Tystiolaeth o ddarpariaeth yn yr ysgol, a'i heffaith, yn seiliedig ar gyngor allanol	☐ Tystiolaeth fod yr ysgol wedi ymgynghori â Gwasanaethau ADY/ Seicoleg Addysg ac wedi gweithredu ymyriadau mwy penodol a ffocysedig o ganlyniad i'w cyfraniad. ☐ Tystiolaeth o ddarpariaeth yr ysgol yn seiliedig ar gyngor ac effaith a ddangoswyd trwy ddau adolygiad CAU (bob tymor) yn Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar + / Gweithredu gan yr Ysgol + ac Asesiad Athrawon. ☐ Ymgwymerwyd ag unrhyw hyfforddiant staff a argymhellwyd gan y

	Gwasanaethau ADY/Seicoleg Addysg, a gweithredwyd strategaethau am o leiaf ddau dymor.
DERBYN	Cynigir lleoedd trwy Banel Derbyn yr Awdurdod Lleol, a fydd yn ymgorffori barn y plentyn/person ifanc a'r cyngor a ddarperir gan rieni/gofalwyr, yr ysgol, y Gwasanaeth Cymorth Ysgolion (y Tîm Cymorth Ymddygiad ac Allgymorth), gweithwyr meddygol proffesiynol, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Plant (lle bo'n berthnasol). Ymhob achos, mae angen caniatâd rhieni/gofalwyr i gyrchu darpariaeth arbenigol a dylid ystyried llais y disgybl. Caiff achosion eu hystyried ar sail unigol a rhoir sylw i'w hamgylchiadau penodol. Ym mhob achos, mae angen caniatâd y rhieni/gofalwyr i asesu darpariaeth arbenigol, a dylid ystyried llais y disgyblion. Mae angen llenwi Ffurflen Dderbyn yr Ysgol ar gyfer pob disgybl sy'n cael lleoliad arbenigol mewn ysgol brif ffrwd.
Trosglwyddo	
Cyfrifoldeb yr ysgol bresennol a'r ysgol sy'n derbyn yw trefnu ymweliadau i'r ddarpariaeth newydd a sicrhau bod cofnodion disgyblion yn cael eu trosglwyddo mewn pryd.	
Monitro ac Adolygu	
Bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff yr ysgol gynnwys y plentyn/y person ifanc, y rhieni/y gofalwyr a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol i adolygu addasrwydd y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig a wneir ar gyfer y plentyn/y person ifanc, gan gynnwys y lleoliad ysgol, o leiaf unwaith bob blwyddyn academiaidd. Mae'n bwysig sicrhau bod rhieni'n ymwybodol pan fydd disgyblion yn cyrraedd diwedd cyfnod allweddol, nad oes hawl awtomatig i leoliad arbenigol ar gyfer y cam allweddol nesaf.	
Deilliant	Meini Prawf Ymadael
Ystyried darpariaeth amgen	☐ Mae angen sylfaenol arall wedi'i nodi heblaw gallu gwybyddol isel a gweithrediad addasol, e.e. ACEY, Anogaeth, ASA. ☐ Gwelir bod maint yr angen yn fwy na'r hyn a ragwelwyd ar y dechrau.
Os bodlonwyd yr holl feini prawf: ystyried darpariaeth amgen	☐ Mae gallu gwybyddol ar neu'n uwch na'r ganradd 1af, neu sgôr safonedig uwch na 67. ☐ Mae gweithredu addasol ar neu'n uwch na'r ganradd 1af, neu sgôr safonedig uwch na 67 a/neu mae'n ymdopi'n dda yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn ystod cyfnodau o integreiddio i'r brif ffrwd. ☐ Mae'r disgybl yn ymdopi ag integreiddio a rhyngweithio yn y brif ffrwd am 50% neu fwy o amserlen yr ysgol gyda chefnogaeth. ☐ Mae'r disgybl wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'i lefelau cyrhaeddiad academiaidd sydd bellach yn cyfateb i rai o'i gyfoedion prif ffrwd, fel y gwelir yn nata asesu'r ysgol a'r profion safonedig.

C. NAM AR Y CLYW

Cyrchu Cefnogaeth Arbenigol ar gyfer Nam ar y Clyw

Tystiolaeth o ganllawiau, cyngor ac asesiad allanol yn sgil Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar + / Gweithredu gan yr Ysgol +	☐ Mae Adran Awdioleg y Gwasanaeth Iechyd wedi rhoi diagnosis ffurfiol o golli clyw. ☐ Rhoddwyd caniatâd rhiant/gofalwr i ddefnyddio'r Gwasanaeth Nam ar y Clyw Arbenigol. ☐ Defnyddir Fframwaith Meini Prawf NATSIP i nodi lefel y gefnogaeth a geir gan sesiynau Athro'r Byddar. ☐ Tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol eraill (megis yr Adran Awdioleg, y Therapydd Iaith a Lleferydd, y Seicolegydd Addysg) mewn perthynas ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Tystiolaeth o ddarpariaeth yn yr ysgol, a'i heffaith, yn seiliedig ar gyngor allanol	☐ Tystiolaeth fod yr ysgol wedi ymgynghori â Gwasanaethau ADY/ Seicoleg Addysg ac wedi gweithredu ymyriadau mwy penodol a ffocysedig o ganlyniad i'w cyfraniad. ☐ Tystiolaeth fod darpariaeth yr ysgol yn seiliedig ar gyngor a bod effaith hyn i'w weld trwy ddau Adolygiad CAU (bob tymor) o Weithredu Blynnyddoedd Cynnar + / Gweithredu gan yr Ysgol + a thrwy Asesiad Athrawon. ☐ Ymgwymerwyd ag unrhyw hyfforddiant staff argymelledig a gweithredwyd strategaethau am o leiaf ddau dymor.
Darpariaeth	
Cynigir lleoedd trwy Wasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol, a fydd yn ymgorffori barn y plentyn/ person ifanc a'r cyngor a ddarperir gan rieni/gofalwyr, yr ysgol, gweithwyr meddygol proffesiynol, y Gwasanaeth Cymorth Ysgolion (Tîm Cymorth Ymddygiad ac Allgymorth), y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Gwasanaethau Plant (lle bo hynny'n berthnasol). Ymhob achos, mae angen caniatâd rhieni/gofalwyr i gyrchu darpariaeth arbenigol a dylid ystyried llais y disgybl.	
Monitro ac Adolygu	
Bydd Gwasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Nam ar y Clyw yn monitro ac yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn cyrchu'r cwricwlwm ac yn cyflawni'r deilliannau disgwylidiedig.	
Deiliant	Meini Prawf Ymadael
Ystyried darpariaeth amgen	☐ Mae angen sylfaenol arall wedi'i ganfod heblaw Nam ar y Clyw.
